

## Gwirionedd

### Darlleniad: 2 Ioan

---

---

O! Dduw ffyddlon, yr ‘un cyfiawn ac uniawn’, canmolwn di am dy fod ‘yn Dduw trugarog a graslon, araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb a gwirionedd’. ‘Cyfiawnder a barn yw sylfaen dy orsedd,’ ac mae dy holl lwybrau ‘yn llawn cariad a gwirionedd.’ Rwyf yn ‘caru cyfiawnder a barn’ ac ‘mae cariad a gwirionedd yn mynd o’th flaen’. ‘Y mae dy gyfiawnder di yn gyfiawnder tragwyddol, ac y mae dy gyfraith yn wirionedd.’

Clodforwn di, ‘y digelwyddog Dduw’, am fod ‘d’eiriau di yn wir’. ‘Gwir yw gair yr Arglwydd,’ ac nid oes ansicrwydd yn perthyn i ti. ‘Y mae dy holl orchymynion yn wirionedd,’ ac ‘yr wyt yn dymuno gwirionedd oddi mewn.’ ‘O! Arglwydd, dysg i mi dy ffordd, i mi rodio yn dy wirionedd; rho i mi galon gywir i ofni dy enw’. ‘Arglwydd, pwy a gaiff aros yn dy babell? Pwy a gaiff fyw yn dy fynydd sanctaidd? Yr un sy’n byw’n gywir, yn gwneud cyfiawnder, ac yn dweud gwir yn ei galon.’

‘O! Arglwydd, gwêl dy was,  
A phrawf fy nghalon i;  
Os gweli ynof anwir ffordd,  
I’r uniawn tywys fi.’

Moliannwn di, O! Arglwydd, am fod dy Fab ‘yn llawn gras a gwirionedd’. Ef ‘yw’r ffordd a’r gwirionedd a’r bywyd’, ac mae ei eiriau’n wirionedd i gyd. Daeth i’r byd ‘i dystiolaethu i’r gwirionedd’, ac mae pawb sy’n perthyn i’r gwirionedd yn gwrando ar ei lais. Rwyf ti yn dwyn tystiolaeth wir amdano, ac mae Ysbryd y Gwirionedd hefyd yn tystio amdano. Ynddo ef y mae’r ‘Ie’ i holl addewidion Duw, a thrwyddo ef yr ydym yn dweud yr ‘Amen’ er gogoniant Duw.

Diolchwn i ti fod y gwirionedd yn rhyddhau caethweision pechod, ac yn eu gwneud ‘yn rhydd mewn gwirionedd’. ‘Lle y mae Ysbryd yr Arglwydd, y mae rhyddid.’ Molwn di am fod Ysbryd y

Gwirionedd yn arwain dy blant ‘yn yr holl wirionedd’, ac mai ‘dy air di yw’r gwirionedd’.

‘O! Arglwydd Dduw’r Hwn biau’r gwaith,  
Arddel dy faith wirionedd,  
Fel byddo i bechod o bob rhyw  
Gael marwol friw o’r diwedd.’

O! Dduw byw, dy Eglwys di yw ‘colofn a sylfaen y gwirionedd’. Am hynny, gofynnwn i ti ei chadw rhag gau broffwydi sy’n dod ati ‘yng ngwisg defaid, ond sydd o’u mewn yn fleiddiaid rheibus’. Rhybuddiaist ni rhagddynt, a dywedaist wrthym mai ‘wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwy’. Gwared ni rhag cael ein ‘gyrru yma a thraw gan bob rhyw awel o athrawiaeth’. Nertha ni yn hytrach i sefyll â gwirionedd yn wregys am ein canol, gan ‘ddilyn y gwir mewn cariad, a thyfu ym mhob peth i Grist’, ein Pen. Cynorthwya ni i ‘garu nid ar air nac ar dafod, ond mewn gweithred a gwirionedd’. Cryfha ni i ‘fod yn gydweithwyr dros y gwirionedd’, gan gofio fod cariad ‘yn cydlawenhau â’r gwirionedd’.

‘Am wirionedd boed ein llafur,  
Am wirionedd boed ein llef,  
Dim ni thycia ond gwirionedd  
O flaen gorsedd bur y nef:  
Gwir wrth fyw, a gwir wrth farw,  
Fydd yn elw mwy na’r byd;  
Arglwydd grasol, o’th drugaredd,  
Rhoi wirionedd inni i gyd.’

Ac yn awr, iddo ef, sydd â’r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na’i ddychmygu, trwy’r gallu sydd ar waith ynom ni, iddo ef y bo’r gogoniant yn yr eglwys ac yng Nghrist Iesu, o genhedlaeth i genhedlaeth, byth bythoedd!  
Amen.

*Peter Davies*